Noder: Ar hyn o bryd dim ond yn Saesneg y mae'r gwasanaeth hwn ar gael.

(1) Beth yw'r gwasanaeth WebFiling?

(2) Pa ffurflenni y gellir eu cyflwyno drwy ddefnyddio WebFiling?

(3) Beth yw oriau gweithredu'r gwasanaeth?

(4) Pam na cha i ffeilio ar ddydd Sul?

(5) Sut manteisir ar y gwasnaeth?

(6) Ydy WebFiling yn addas i swmp-ddefnydd?

(7) Beth yw'r gofynion i gael defnyddio'r gwasanaeth?

(8) All pob cwmni ddefnyddio'r gwasanaeth WebFiling?

(9) Ble galla i gael cymorth ynghylch defnyddio'r gwasanaeth neu gyflwyno dogfennau?

(10) Sut caiff dogfennau eu 'llofnodi'?

(11) Sut dylwn i gofrestru am WebFiling?

(12) Alla i gael mwy nag un côd diogelwch / Beth os oes gen i fwy nag un cyfeiriad e-bost?

(13) Beth os na alla i gofio / ddod o hyd i'm côd diogelwch?

(14) Rwyf wedi gwneud cais am gôd diogelwch ond heb gael un

(15) Os oes gen i fwy nag un cwmni i'w cofrestru, oes arna i angen mwy nag un côd diogelwch?

(16) Sut caiff codau dilysu cwmni eu neilltuo?

(17) Pam y dywedir ar y tudalen cofrestru fod côd dilysu eisoes wedi ei neilltuo i'r cwmni?

(18) Allwn ni ddefnyddio'r un côd dilysu ar gyfer sawl cwmni? / Swmp-geisiadau am godau dilysu

(19) Rwyf wedi derbyn llythyr yn cynnwys côd dilysu cwmni ond ni cheisiais i un

(20) Rwyf heb dderbyn / ni alla i gofio / ddod o hyd i gôd dilysu cwmni

(21) Rwyf wedi newid fy nghôd dilysu cwmni ond nid yw'r côd newydd yn ddilys

(22) Oes rhaid i bob cwmni wrth gôd dilysu ar wahân?

(23) Rwyf am ganslo côd dilysu cwmni yn syth

(24) Pa mor hir mae'n cymryd i gydnabod ffeilio electronig?

(25) Oes angen imi gyflwyno manylion fy holl safleoedd eraill fel cyfarwyddwr?

(26) Sut mae cyfarwyddwr newydd yn cydsynio i weithredu? (yng nghyswllt Ffurflen 288a)

(27) Sut galla i argraffu copïau o sgriniau WebFiling?

(28) Sut galla i weld y data a gyflwynwyd?

(29) Sut ydw I'n ffeilio fy nghyfrifon?

(30) Ble galla I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifon?

(31) Sut ydw I'm ffeilio fy furflen Flynyddol?

(32) Sut galla I dalu am fy Ffurflen Flynyddol?

(33) Sut galla I gael cyfrif credyd ar gyfer WebFiling?

(34) Beth yw sail gyfreithiol WebFiling?

(35) Swmp-geisiadau am godau dilysu cwmni o dan drefn WebFiling / Defnyddio'r un côd dilysu ar gyfer sawl cwmni

Yn ol I'r brig

(1) Beth yw'r gwasanaeth WebFiling?

Mae'r gwasanaeth WebFiling yn cynnig trefn ddiogel i gyflwynwyr anfon gwybodaeth gwmni ar–lein.

(2) Pa ffurflenni y gellir eu cyflwyno drwy ddefnyddio WebFiling?

Gellir cyflwyno'r mathau canlynol o ffurflen drwy WebFiling:

Y Ffurflen Flynyddol (eithriadau'n gymwys), 225, 287, 288a, 288b, 288c, 353, 353a, 190, 190a, 88(2), 123, DCA (Cyfrifon Cwmni Segur) a Chyfrifon Cryno wedi'u Heithrio rhag Archwilio Ariannol.

Mae eithriadau yng nghyswllt y Ffurflen Flynyddol ac **nid yw ar gael** i'r cwmnïau canlynol**:**

- rhifau cwmni sydd â rhagddodiad (e.e. FC, AC etc.) ar wahân i SC
- cwmnïau sydd â mwy na 20 o gyfanddeiliaid unigol a chyd-gyfranddeiliaid
- cwmnïau lle mae cyfanswm y swyddogion cyfredol a'r rhai sydd wedi ymddiswyddo yn fwy na 120
- cwmnïau sydd â gwerth cyfran o fwy na thri lle degol
- cwmnïau sydd â gwerth cyfran unigol o fwy na £9999
- Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig
- cwmnïau sydd â mwy na 10 cyd-gyfranddeiliad ar gyfer pob cyfranddaliad
- cwmnïau sydd â mwy na 6 gwerth (6 math o arian breiniol) o ran cyfalaf nominal
- cwmnïau wedi eu diddymu
- cwmnïau sydd wedi ymddatod yn wirfoddol
- cwmnïau sydd wedi ymddatod yn orfodol
- cwmnïau yn nwylo'r derbynnydd
- cwmnïau sydd wedi cyflwyno adroddiad cyfarfod terfynol
- cwmnïau a gafodd eu trosi neu sydd wedi cau
- cwmnïau lle cyhoeddwyd hysbysiad diddymu cyntaf yn y Gazette
- cwmnïau y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno rhestri o is-ymgymeriadau ac ymgymeriadau cysylltiedig
- cwmnïau lle mae angen mewnbynnu mwy na 255 o newidiadau o fewn un sesiwn
- cwmnïau lle mae mwy na 1000 tag i bob dogfen

(3) Beth yw oriau gweithredu'r gwasanaeth?

Mae'r gwasanaeth ar gael i gyflwyno data rhwng 7am a chanol nos, dydd Llun – dydd Sadwrn. Ond oherwydd y posibilrwydd y bydd angen prosesu â llaw, dim ond yn ystod oriau gwaith arferol Tŷ'r Cwmnïau y caiff dogfennau eu harchwilio.

(4) Pam na cha i ffeilio ar ddydd Sul?

Mae'r gwasanaeth heb fod ar gael ar y Sul er mwyn i Dŷ'r Cwmnïau allu gwneud gwaith datblygu a chynnal a chadw ar y system. Nid yw hyn yn bosib ar adegau eraill oherwydd lefel uchel yr wybodaeth ddiweddaredig y mae angen trefnu iddi fod ar gael bob dydd. Caiff hon ei diweddaru rhwng canol nos a 7am bob dydd, sy'n gadael dim ond y Sul ar gyfer gwaith datblygu a darparu cyfleusterau uwch.

Yn ol I'r brig

(5) Sut manteisir ar y gwasanaeth?

Gellir troi at y drefn WebFiling drwy glicio'r eicon WebFiling ar dudalen hafan Tyr Cwmniau http://www.companieshouse.go.uk

neu drwy ddefnyddio URL WebFiling
http://ewf.companieshouse.gov.uk

(6) Ydy WebFiling yn addas i swmp-ddefnydd?

Nac ydy, rhaid cofnodi trafodion un ar y tro o dan y gwasanaeth WebFiling. Ar gyfer swmp-ddefnydd, mae'r gwasanaeth Ffeilio Electronig yn fwy addas. Mae'r gwasanaeth hwn yn mynnu meddalwedd arbenigol i ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau ddata ar ffurf neges e-bost wedi ei fformadu. Am wybodaeth bellach, ymwelwch â'r tudalen Ffeilio Electronig o fewn ein gwefan neu ffonio'n Canolfan Cysylltu ar 0870 333 3636

(7) Beth yw'r gofynion i gael defnyddio'r gwasanaeth?

Rhaid ichi gofrestru i gael defnyddio'r gwasanaeth WebFiling. Bydd angen darparu cyfeiriad e-bost a gwneud cais am gôd diogelwch a chôd dilysu cwmni. I geisio'r codau hyn, cliciwch eicon WebFiling ar ein tudalen hafan neu ddefnyddio'r URL canlynol –

https://ewf.companieshouse.gov.uk/.

- Anfonir y Côd Diogelwch yn syth i'r cyfeiriad e-bost a bennwch (fel arfer o fewn 10 munud.)
- Anfonir y Côd Dilysu Cwmni drwy'r post i swyddfa gofrestredig y cwmni (fel arfer o fewn 5
- diwrnod gwaith).
- Bydd eisiau'r ddau gôd i fewngofnodi a chyflwyno data drwy ddefnyddio'r gwasanaeth WebFiling.
- Am wybodaeth bellach ynghylch y gofynion system, ewch i dudalen croeso WebFiling a chlicio 'HELP'.

(8) All pob cwmni ddefnyddio'r gwasanaeth WebFiling?

Na all. Dim ond ar gyfer rhifau cwmni sy'n ddigidau i gyd, e.e. 9000012, neu sy'n dechrau ag SC, e.e. SC123456, y gellir ffeilio manylion ar-lein.

(9) Ble galla i gael cymorth ynghylch defnyddio'r gwasanaeth neu gyflwyno dogfennau?

Mae cymorth ar gael ar bob tudalen o dan drefn WebFiling. Dylai'r botwm 'HELP' ddarparu cymorthpenodol i'r cyd-destun yng nghyswllt pob tudalen. Rhoir cymorth ychwanegol yn yr adranNODIADAU sgrin.

Yn ol I'r brig

(10) Sut caiff dogfennau eu 'llofnodi'?

Caiff pob 'dogfen' electronig ei ffeilio drwy ddefnyddio côd dilysu cwmni sy'n wybyddus yn unig i Dŷ'r Cwmnïau a'r ysgrifennydd cwmni/cyflwynydd. Mae'r côd dilysu yn cymryd lle llofnod ar y ddogfen.

(11) Sut dylwn i gofrestru am WebFiling?

Ewch i dudalen croeso 'WebFiling' a dethol 'CONTINUE' i gychwyn y broses gofrestru 3-cham. Bydd eisiau'r côd diogelwch a'r côd dilysu cwmni fel ei gilydd i fewngofnodi a defnyddio'r gwasanaeth.

- Rhaid ichi ddarparu cyfeiriad e-bost fel rhan o'r cofrestru – caiff pob gohebiaeth WebFiling bellach ei hanfon i'r cyfeiriad e-bost a rowch.
- Caiff eich côd diogelwch ei e-bostio'n syth yn ôl atoch a bydd wedi ei gysylltu'n barhaol â'ch cyfeiriad e-bost.
- Caiff y côd dilysu ei anfon drwy'r post dosbarth 1af i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni – caniatewch 5 diwrnod gwaith. (Ni roddwn gôd os cafodd un ei neilltuo'n flaenorol i'r cwmni.)
- Unwaith eich bod wedi derbyn y ddau gôd, cewch fewngofnodi a defnyddio'r gwasanaeth. Os am gôd diogelwch **yn unig** yr ydych yn cofrestru, ni roir côd dilysu lle cafodd un ei neilltuo'n flaenorol i'r cwmni.

Os **nad oes** gennych gopi o'ch côd dilysu cwmni, gallwch ofyn am nodyn atgoffa: mewngofnodwch a chlicio 'Forgotten your authentication code. Click here'. Anfonir nodyn atgoffa i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni – caniatewch 5 diwrnod gwaith.
Gallwch fewngofnodi a newid eich cyfeiriad e-bost, eich côd diogelwch a'r côd dilysu cwmni unrhyw bryd os dymunwch. (Ar y tudalennau 'My accounts' a 'Company registration details')

(12) Alla i gael mwy nag un côd diogelwch / Beth os oes gen i fwy nag un cyfeiriad e-bost?

Os oes gennych fwy nag un cyfeiriad e-bost, cewch wneud cais am i gôd/godau diogelwch ychwanegol gael ei gysylltu/eu cysylltu â'r cyfeiriad(au) ychwanegol. Anfonir cadarnhad WebFiling i'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwch i fewngofnodi ar gyfer y gwasanaeth. Ond gallwch ddarparu cyfeiriad dros dro ar y tudalen cyflwyno manylion cysylltu ar ddiwedd y broses ffeilio. Fe anfonid cadarnhad e-bost i'r cyfeiriad dros dro ar gyfer y ffeiliad hwnnw yn unig.

I geisio codau diogelwch ychwanegol, ni raid ond cwblhau'r broses gofrestru 'New Customer'. Byddwn yn e-bostio'r côd diogelwch yn syth atoch, ac ni rown gôd dilysu cwmni arall os neilltuwyd un yn barod.

Yn ol I'r brig

(13) Beth os na alla i gofio / ddod o hyd i'm côd diogelwch?

Gallwch ofyn am nodyn atgoffa drwy ddethol 'Forgotten your security code? Click here' ar dudalen croeso 'WebFiling'. Ni raid ond cofnodi'ch cyfeiriad e-bost ac fe e-bostiwn atoch neges yn eich atgoffa am eich côd diogelwch.
Os na neilltuwyd côd diogelwch eto, gwnewch gais am un drwy gwblhau'r broses gofrestru.

(14) Rwyf wedi gwneud cais am gôd diogelwch ond heb gael un

Mae'n bosib nad oedd y cyfeiriad e-bost a gofnodwyd gennych wrth gofrestru yn ddilys. Gwnewch gais eto, gan sicrhau cofnodi'r cyfeiriad e-bost yn gywir. Caiff y côd diogelwch ei anfon i'r cyfeiriad ebost a rowch.

(15) Os oes gen i fwy nag un cwmni i'w cofrestru, oes arna i angen mwy nag un côd diogelwch?

Nac oes. Dim ond un côd diogelwch sydd angen arnoch ar gyfer pob cyfeiriad e-bost. Os dymunwch ddefnyddio'r un cyfeiriad e-bost i ffeilio dogfennau sawl cwmni, dylech ddefnyddio'r un côd diogelwch i bob cwmni; i'r cyfeiriad hwn yr anfonir pob cadarnhad drwy e-bost.
Fodd bynnag, mae angen côd dilysu ar wahân ar gyfer pob cwmni, oni threfnoch chi gôd dilysu swmp-ffeilio gyda ni'n flaenorol: gweler (34) am fanylion pellach.

(16) Sut caiff codau dilysu cwmni eu neilltuo?

Caiff y côd dilysu cwmni ei greu fel rhan o broses gofrestru WebFiling. Fe'i hanfonir drwy'r post dosbarth 1af wedi ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd Cwmni yng nghyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni (yn unol â chofnodion Tŷ'r Cwmnïau), a hynny fel arfer o fewn 5 diwrnod gwaith.
Dyma'r unig ran o'r broses sy'n dibynnu ar bapur, ond mae angen gwneud hyn drwy ohebiaeth ysgrifenedig rhwng Tŷ'r Cwmnïau a'r cwmni ei hun er mwyn sicrhau bod ysgrifennydd y cwmni'n ymwybodol bod y côd wedi ei drefnu.

(17) Pam y dywedir ar y tudalen cofrestru fod côd dilysu eisoes wedi ei neilltuo i'r cwmni?

Cafodd côd dilysu ei geisio'n flaenorol i'r cwmni a'i anfon ar yr Ysgrifennydd Cwmni yng nghyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni.
Os prynwyd eich cwmni oddi wrth drydydd parti (e.e. asiant corffori neu ffurfio), hwyrach bod côd dilysu wedi ei geisio wrth gorffori'r cwmni gyntaf.
Os hoffech ail-archebu côd dilysu'r cwmni, cwblhewch y broses gofrestru unwaith eich bod wedi derbyn eich côd diogelwch drwy e-bost:

- Ewch yn ôl i sgrin fewngofnodi WebFiling a theipio'ch cyfeiriad e-bost a'ch côd diogelwch.

Yn ol I'r brig

- Ar y sgrin nesaf detholwch 'Forgotten your authentication code. Click here' a chofnodi rhif y cwmni (yr ydych yn ceisio côd dilysu ar ei gyfer).

- Unwaith ei fod wedi ei gadarnhau, fe anfonir nodyn atgoffa yn cynnwys y côd dilysu i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni – caniatewch 5 diwrnod gwaith.

Os dymunwch newid y côd dilysu a neilltuwyd i'r cwmni, gallwch wneud hynny ar y tudalen 'My account details'; dylai'r côd newydd fod yn ddilys ar gyfer y diwrnod gwaith nesaf.

(18) Allwn ni ddefnyddio'r un côd dilysu ar gyfer sawl cwmni? / Swmp-geisiadau am godau dilysu

Gallwch. Fe allwn drefnu i gyflwynwyr sy'n ffeilio ar gyfer 20 neu ragor o gwmnïau ddefnyddio'r un côd dilysu. Gweler (34) am wybodaeth bellach ynghylch y gofynion i drefnu hyn (yn gymwys i gwsmeriaid Electronig a WebFiling).

(19) Rwyf wedi derbyn llythyr yn cynnwys côd dilysu cwmni ond ni cheisiais i un

- Mae'n debyg eich bod yn asiant neu rywun sydd â'r awdurdod i ffeilio dogfennau ar ran cwmni, ac mai'ch cyfeiriad chi yw cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni. Os yw'r cwmni wedi cofrestru I ddefnyddio'r gwasanaeth, byddwch wedi derbyn y llythyr am eich bod eich gweithredu'n ysgifennydd i'r cwmni. Dylech gysylltu â'r cwmni (eich cleient) mewn achos o'r fath.

- Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi neilltuo côd dilysu'n awtomatig i'ch cwmni os yw dyddiad ffeilio'ch ffurflen flynyddol yn nesáu. Os felly, a chithau am fanteisio ar y gwasanaeth, y cyfan sydd eisiau ei wneud yw mynd i dudalen croeso WebFiling a chofrestru am gôd diogelwch. Gweler (11), 'Sut dylwn i gofrestru am WebFiling?'.

(20) Rwyf heb dderbyn / ni alla i gofio / ddod o hyd i gôd dilysu cwmni

Heb dderbyn – Os ydych wedi cofrestru ar gyfer WebFiling ond heb dderbyn côd dilysu cwmni, gwiriwch fod cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yn gywir gan mai yma y caiff y côd dilysu ei bostio. Gallwch wirio cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yn ddi-dâl drwy'n gwasanaeth WebCHeck - http://www.companieshouse.gov.uk/webcheck.

Wedi anghofio – Os ydych wedi anghofio'ch côd dilysu, gellir gofyn am nodyn atgoffa. Mewngofnodwch ar gyfer gwasanaeth WebFiling (gan roi'ch cyfeiriad e-bost a'ch côd diogelwch) i geisio cadarnhad. Detholwch 'Forgotten your authentication code. Click here' a chofnodi rhif y cwmni y dymunwch ffeilio drosto.
Caiff llythyr atgoffa ei yrru drwy'r post dosbarth 1af i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni – caniatewch 5 diwrnod gwaith. Os na neilltuwyd côd, gwnewch gais am un drwy gwblhau'r broses gofrestru.

Yn ol I'r brig

(21) Rwyf wedi newid fy nghôd dilysu cwmni ond nid yw'r côd newydd yn ddilys

Bydd eich côd newydd yn disodli'r un cyfredol ar ddiwedd y diwrnod gwaith. Yn y cyfamser, dylai'r hen gôd fod yn ddilys o hyd.

(22) Oes rhaid i bob cwmni wrth gôd dilysu ar wahân?

Oes, dylai pob cwmni fod â'i gôd dilysu ei hun. Ond mae'n bosib neilltuo'r un côd i sawl cwmni. I wneud hyn, byddai angen trefnu côd dilysu swmp-ffeilio gyda ni – gweler (34) am wybodaeth bellach

(23) Rwyf am ganslo côd dilysu cwmni yn syth

Gallwch ganslo'ch côd dilysu ar y tudalen manylion cofrestru cwmnïau. Gellir canslo'r côd o'r diwrnod gwaith nesaf ymlaen neu ar ôl dyddiad penodedig yn y dyfodol.

(24) Pa mor hir mae'n cymryd i gydnabod ffeilio electronig?

Ein nod yw cofrestru 90% o ddogfennau wedi eu ffeilio'n electronig o fewn 24 awr i'w derbyn, er y gallyr amser prosesu fod yn hirach os oes angen ymyrryd â llaw.
Ar ôl cyflwyno'ch data, dylech gael dwy neges e-bost, un i gadarnhau bod y data wedi dod i law ac ail un i gadarnhau bod y data wedi eu derbyn neu eu gwrthod. Os ydych wedi talu'r ffi o £15 am ffeilio ffurflen flynyddol drwy gerdyn credyd, fe gewch drydedd neges e-bost gan ein darparydd talu 'Netbanx', yn cadarnhau swm y taliad a'i fod wedi dod i law.

- Fel arfer, byddwch yn cael yr e-bost sy'n cadarnhau bod eich data wedi dod i law o fewn 3 awr ichi gyflwyno'r data (Os na chewch gadarnhad, gallwch ffonio'n Canolfan Cysylltu i geisio cymorth, gan ddyfynnu'r cyfeirnod ar eich amlen).

- Lle ceisir datganiad o'r data a gyflwynwyd ar y ffurflen flynyddol, fe gaiff hwnnw ei anfon fel ymgysylltiad ynghlwm wrth e-bost ar wahân, fel arfer o fewn 3 awr i'r cyflwyno.

- Caiff pob dogfen a ffeilir yn electronig ei chydnabod drwy e-bost derbyn neu wrthod, a hynny fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith (unwaith bod y ddogfen wedi ei phrosesu). Fodd bynnag, caiff y mwyafrif o ddogfennau eu prosesu o fewn 24 awr. Os gwrthodir eich data, fe roir y rhesymau yn yr e-bost.

(25) Oes angen imi gyflwyno manylion fy holl safleoedd eraill fel cyfarwyddwr?

Oes, mae'r gyfraith yn mynnu'ch bod yn cyfleu manylion eich holl safleoedd eraill fel cyfarwyddwr, er y gall y gyfraith newid yn y dyfodol. Ni chaiff yr wybodaeth mo'i defnyddio i ddiweddaru na dilysucofnodion y cwmnïau lle delir y safleoedd hynny.

Yn ol I'r brig

(26) Sut mae cyfarwyddwr newydd yn cydsynio i weithredu? (yng nghyswllt Ffurflen 288a)

Yn ychwanegol at y côd dilysu cwmni, mae'n rhaid i ffurflenni 288a a gaiff eu ffeilio'n electronig gynnwys hefyd 3 eitem o wybodaeth bersonol (wedi eu dewis o restr o 7) gyda golwg ar y cyfarwyddwr a benodir.
O dan y Ddeddf Cwmnïau, mae'n rhaid i gyfarwyddwyr, wrth gael eu penodi, lofnodi i gadarnhau eu 'cydsyniad i weithredu'. Er mwyn sicrhau nodwedd sy'n gyfwerth â'r llofnod hwn, mae'n rhaid i ddogfennau penodi electronig gynnwys 3 eitem o wybodaeth bersonol wedi eu darparu gan y sawl abenodir, o blith y canlynol:

Lle geni
Rhif teleffon
Rhif Yswiriant Gwladol
Rhif pasbort
Enw morwynol y fam
Lliw llygaid
Enw cynta'r tad

(27) Sut galla i argraffu copïau o sgriniau WebFiling?

I argraffu unrhyw rai o'r tudalennau WebFiling, detholwch y bysellau 'Control' a 'P' i weld y ffenest argraffu, yna dethol 'OK' i argraffu'r sgrin.
Neu defnyddiwch y botwm 'Print Page' o fewn yr adran ffurflenni blynyddol. Dangosir cynnwys y sgrin a'ch ffenest argraffu. O'r ffenest argraffu detholwch 'OK' i argraffu'r sgrin.

(28) Sut galla i weld y data a gyflwynwyd?

O Brif Ddewislen WebFiling, mae'r sgrin 'Gweld y Data a Gyflwynwyd' yn rhestru'r dogfennau a gyflwynwyd gan gyflwynydd trwy WebFiling yn ystod y 10 diwrnod diwethaf. Mae'r sgrin yn dangos y dyddiad cyflwyno, rhif y cwmni, math o ddogfen a'r rhif cyflwyno (rhif amlen)

Sylwch: Mae cyswllt rhwng y dogfennau yn yr ardaloedd llwytho i lawr â chyfeiriad e-bost y cyflwynwyd a'r côd diogelwch, nid â rhif y cwmni.
Pan fydd cyflwynydd wedi mewngofnodi, y dogfennau sydd ar gael yw'r rhai a gyflwynwyd gan y cyflwynydd unigol.
Mae'r dogfennau ar ffurf PDF, a gellir eu llwytho i lawr yn hawdd trwy glicio ar y cyswllt PDF perthnasol a dilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

(29) Sut ydw i'n ffeilio fy nghyfrifon?

- Yn gyntaf, yr ydych dan rwymedigaeth i baratoi cyfrifon a sicrhau iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'u llofnodi ar ran y Bwrdd gan un o gyfarwyddwyr y cwmni.

- O'r sgrin Dewislen, detholwch 'Cyfrifon Cwmni Segur' (DCA) neu 'Cyfrifon Cryno wedi'u Heithrio rhag Archwilio Ariannol'.

Yn ol I'r brig

- Sicrhewch fod eich cwmni'n bodloni'r meini prawf a osodwyd i gyflwyno cyfrifon o'r fath.
- Lawrlwythwch ddarllenydd Adobe Acrobat.
- O'r sgrin Patrymau, cliciwch 'Parhau' i lawrlwytho'ch patrwm cyfrifon.
- Caiff y patrwm ei lawrlwytho i'ch cyfrifiadur.
- Cwblhewch y patrwm, ei gadw ac uwchlwytho'r cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau.
- Wedyn, byddwch yn cael e-bost yn cadarnhau bod y cyfrifon wedi dod i law yn Nhŷ'r Cwmnïau.

(30) Ble galla i gael rhagor o wybodaeth am gyfrifon?

Am wybodaeth gyffredinol ynghylch cyfrifon drwy dudalen hafan Tŷ'r Cwmnïau, detholwch 'Gwybodaeth a chanllawiau', a dewiswch yr opsiwn 'Sut i reoli cwmni'. Caiff ein nodiadau canllaw eu harddangos. Detholwch 'Cyfrifon a Dyddiadau Cyfeirnod Cyfrifeg' (GBA3).

(31) Sut ydw i'n ffeilio fy Ffurflen Flynyddol?

- Mae'r Ffurflen Flynyddol yn giplun o wybodaeth gwmni arbennig ar y dyddiad diwallu. Mae'n wahanol i gyfrifon blynyddol y cwmni.
- O'r sgrin Dewislen detholwch 'Llenwi Ffurflen Flynyddol' (tâl o £15).
- Cliciwch y botwm 'Cadarnhau' i fynd ymlaen.

Rholiwch drwy'r sgriniau parod canlynol, gan addasu lle bo angen. Cliciwch 'Cadarnhau' ar ddiwedd pob sgrin.

32. Sut galla i dalu am fy Ffurflen Flynyddol?

Ar y sgrin Talu, detholwch eich dull talu a chlicio 'Anfon'.

Dulliau talu:

1. Cerdyn Credyd/Debyd

Os detholir 'Cerdyn credyd/debyd', caiff y sgrin Talu am WebFiling drwy Gerdyn Credyd ei

harddangos.

Yn ol I'r brig

Sylwer: Cyn mynd ymlaen i'r sgrin Talu drwy Gerdyn Credyd, gwnewch nodyn o Enw'r Cwmni, Rhif y Cwmni a'r Rhif Cyflwyno gan y gall y ddesg gymorth ofyn am y manylion hyn os bydd eich taliad drwy gerdyn yn methu.

Cliciwch 'Parhau'. Eir â chi nawr at weinyddwr diogel Netbanx a chewch eich gwahodd i gofnodi'ch manylion talu.

Cyfrif Credyd Ar-lein – ar gael i gyflwynwyr sy'n ffeilio 10 neu ragor o Ffurflenni Blynyddol bob blwyddyn.

.

Os detholir 'drwy gyfrif', cofnodwch eich 'Nodwedd Adnabod Cyflwynydd' a'ch 'Côd Dilysu Cyflwynydd' a chlicio 'Anfon'. Caiff y sgrin Cadarnhau Taliad ei harddangos.

Ar ôl anfon, caiff dwy neges e-bost eu gyrru atoch: un i gadarnhau bod y data wedi dod i law, a'r llall i gadarnhau bod eich data wedi'u derbyn neu eu gwrthod.

Os gwnaed y taliad drwy gerdyn credyd/debyd, caiff trydedd neges e-bost ei gyrru gan ein darparydd taliadau, Netbanx, i gadarnhau'r swm a gafodd ei dalu.

(33) Sut galla i gael cyfrif credyd ar gyfer WebFiling?

Mae hwn ar gael i bob cyflwynydd sy'n ffeilio 10 neu ragor o ffurflenni blynyddol y flwyddyn. I wneud cais, llenwch ffurflen ceisio cyfrif credyd ar-lein, sydd ar gael i'w llenwi ar-lein neu i'w llwytho i lawr o'ngwefan.

Cliciwch yma i gael ffurflen ceisio cyfrif credyd ar-lein.
Ar ôl llenwi a llofnodi'r ffurflen gais, dylid ei dychwelyd i:
Adran Gyllid Tŷ'r Cwmnïau, Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ
Caniatewch 10 diwrnod gwaith i'ch cyfrif gael ei sefydlu. Unwaith bod y ffurflen wedi ei phrosesu, fe anfonir atoch eich Côd Adnabod Cyflwynydd Cyfrif Talu a'ch Côd Dilysu Cyflwynydd, y mae'n rhaid eu cofnodi ill dau i awdurdodi taliad ar dudalen manylion talu WebFiling.
O'i sefydlu, **dim ond** i dalu am wybodaeth wedi ei chyflwyno drwy wasanaethau WebFiling a Ffeilio Electronig Tŷ'r Cwmnïau y gellir defnyddio'r cyfrif hwn.

(34) Beth yw sail gyfreithiol WebFiling?

O dan adran 707B o Ddeddf Cwmnïau 1985, mae gan y Cofrestrydd y pŵer i gymeradwyo ffurf a dull cyflwyno dogfennau drwy'r drefn electronig a'r ffordd y cânt eu dilysu yn lle eu llofnodi. Fe roir y gymeradwyaeth drwy gyfarwyddyd wedi ei lofnodi gan y Cofrestrydd, gan nodi'r ofynion perthnasol.

Yn ol I'r brig

(35) Swmp-geisiadau am godau dilysu cwmni o dan drefn WebFiling / Defnyddio'r un côd dilysu argyfer sawl cwmni (Mae hyn yn gymwys i gwsmeriaid Electronig a WebFiling.)

I drefnu hyn, byddai arnom angen y canlynol:
Os llai na 20 cwmni sydd dan sylw

- Llythyr gan y cyflwynydd yn rhestru rhifau'r cwmnïau a'r côd dilysu sydd i'w neilltuo i'r cwmnïauhyn (gweler 'Diwyg' isod).

- Llythyr awdurdod gan un o swyddogion pob cwmni – wedi ei lofnodi a'i ddyddio ac yn awdurdodidefnyddio'r côd dilysu a bennir. *Mae copi enghreifftiol o lythyr o'r fath ar gael isod.*

Ni fyddai angen hwn os yw'r cyflwynydd yn swyddog i bob un o'r cwmnïau – os felly, byddai un llythyr awdurdod gan y cyflwynydd yn ddigon, yn nodi'r côd dilysu a ddewisir ac yn rhestru rhifau'r cwmnïau.
Os mwy na 20 cwmni sydd dan sylw

- Llythyr eglurhaol gan y cyflwynydd
- Llythyr(au) awdurdodi gan y swyddog(ion) cwmni – dylai pob llythyr fod wedi ei lofnodi a'i ddyddio, gan awdurdodi defnyddio'r côd dilysu a bennir. *Mae copi enghreifftiol o lythyr o'r fath ar gael isod.*

Ni fyddai angen hwn os yw'r cyflwynydd yn swyddog i bob un o'r cwmnïau – os felly, byddai un llythyr awdurdod gan y cyflwynydd yn ddigon, yn nodi'r côd dilysu a ddewisir ac yn rhestru rhifau'r cwmnïau ar ddisg lipa neu CD ROM.

- Data'r côd dilysu y dylid eu cyflwyno ar ddiwyg testun (suffix.txt) ar ddisg lipa neu CD ROM (gweler 'Diwyg' isod).

Diwyg:

Côd dilysu wedi ei ddilyn gan atalnod, a hwnnw wedi ei ddilyn gan rif cofrestru'r cwmni – un cwmni ibob llinell.
Er enghraifft – i roi gwybod mai'r côd dilysu ABCDEF ddylai gael ei ddefnyddio ar gyfer cwmnïau 98954, 654876 a 2098987, anfonwch:
ABCDEF,98954
ABCDEF,654876
ABCDEF,2098987
Gall rhif y cwmni gynnwys nifer o seroau i wneud cyfres wyth arwyddnod o hyd, ond nid oes angen hyn at ddibenion y prosesu, e.e. ABCDEF, 00098954

NODYN:

Dylid anfon yr holl wybodaeth ofynnol i Dŷ'r Cwmnïau gyda'i gilydd, a rhaid i'r wybodaeth a ddarperir ar ddisg lipa / CD ROM fod wedi ei hategu gan gopïau papur wedi eu llofnodi'n briodol o hysbysiadau gan y cwmnïau a gyflwynwch. Rhaid i bob cwmni ddarparu llythyr wedi ei lofnodi a'i ddyddio, yn awdurdodi defnyddio'r côd dilysu; ond nid oes angen hyn os cyfeiriad y cyflwynydd yw'r swyddfa gofrestredig ac os yw'r cyflwynydd yn swyddog i bob un o'r cwmnïau.

Enw'r Cwmni
Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig y Cwmni
Gweinyddu Ffeilio Electronig
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd
CF14 3UZ
Dyddiad
Annwyl Syr/Madam
Gwasanaethau Ffeilio Ar-lein – Côd Dilysu Cwmni
A fyddech cystal â chofnodi'r côd a bennir isod fel 'Côd Dilysu Cwmni' i ***enw'r cwmni***, rhif cofrestru
rhif y cwmni at ddibenion ffeilio gwybodaeth ar-lein gyda Thŷ'r Cwmnïau:
Côd Dilysu Cwmni: _ _ _ _ _ _
Y cyflwynydd sydd wedi ei (h)awdurdodi i gyflwyno gwybodaeth ar ran y cwmni yw:
Enw'r Corff _____
/ Cwmni
Cyfeiriad y Cwmni _____
Cyfeiriad cysylltu drwy e-bost _____
Wedi ei lofnodi gan swyddog sy'n gwasanaethu: ** enw'r cwmni **
Llofnod _____
Cyfarwyddwr/Ysgrifennydd (dileer yn ôl sy'n briodol)
Enw Llawn _____
Mewn priflythrennau clir
Cyfeiriad cysylltu drwy e-bost : _____
*Cofrestrwyd yn (Lloegr/Cymru neu'r Alban yn ôl sy'n briodol), rhif cofrestru** * * * * **
Os yw'r hysbysiad yn ymwneud â chwmni yn yr Alban, cynhwyswch y rhagddodiad SC o flaen rhif y
cwmni.
Mae'r llythyr hwn yn enghraifft o'r olwg a ddisgwylir ar lythyr awdurdodi swmp-ffeilio (gan swyddog cwmni) ar gyfer
WebFiling a Ffeilio Electronig. Mae angen yr wybodaeth ganlynol a dylai fod wedi ei chynnwys:

- Dylid defnyddio papur pennawd y cwmni (lle bo modd). Fel arall, dylid darparu enw'r cwmni a chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig.
- Cynhwyswch enw a rhif y cwmni.
- Y rhif dilysu sydd i'w neilltuo (yng nghyswllt rhif y cwmni).
- Manylion y cyflwynydd (y sawl sy'n gyfrifol am ffeilio ar ran y cwmni).
- Llofnod, enw llawn a chyfeiriad e-bost un o swyddogion y cwmni (y swyddog sy'n awdurdodi defnyddio'r côddilysu a bennir).